# Buddion Lles Cymunedol

9fed rhifyn

CYLCHLYTHYR EBRILL - MEHEFIN 2026

## Buddion Lles Cymunedol – Cylchlythyr Chwarterol

Mae ein cylchlythyr diweddaraf yn tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol sy'n cael ei chyflawni trwy weithgareddau Buddion Lles Cymunedol ar draws Ardal. O fentrau cyflogaeth a sgiliau i brosiectau cymunedol, addysg ac amgylcheddol, mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y gwerth parhaol sy'n gallu cael ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am y cyflawniadau a'r llwyddiannau o bob rhan o Ardal y chwarter hwn.



**Penny Haywood**
**RhG – Uwch Reolwr Categori**

| Y RHIFYN HWN | TUDALEN |
|---|---|
| Lleihau Carbon | 2-3 |
| Digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr | 4 |
| Arena McLaren | 5 |
| Morgan Sindall | 6 |
| Dauson | 7 |
| Kier | 8 |
| Lovell | 9-10 |
| WSP | 11 |
| Walters | 12 |
| Goldbeck | 13 |
| Andrew Scott Cyf | 14 |
| Grahams | 15 |
| Matrix | 16 |
| Tîm Digartrefedd - Tŷ Gorwel | 17 |
| Academi Adeiladu Ar y Safle | 18-19 |
| Addewid Caerdydd | 20-21 |
| Coed Caerdydd | 22 |

CARDIFF
CAERDYDD

# Ar daith garbon gyda'n gilydd

**Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gweithio tuag at ddod yn sero net. Ochr yn ochr â lleihau ein defnydd o ynni a datgarboneiddio trafnidiaeth, mae angen i ni hefyd leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â'r nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith rydyn ni'n eu prynu. Er mwyn deall yr allyriadau hyn gan gadwyni cyflenwi yn well, mae angen cymorth ein cyflenwyr arnom ni.**

Rydym eisiau i'n cyflenwyr wneud eu rhan tuag at Gymru Sero Net erbyn 2050, gan ddechrau gyda chyfrifo eu hallyriadau carbon a chreu Cynllun Lleihau Carbon ar gyfer eu busnes.

Ein Haddewid Carbon

NET SERO 2050




- **CWMPAS 1** Allyriadau Uniongyrchol o ffynonellau ar y safle
- **CWMPAS 2** Allyriadau Anuniongyrchol o ynni sy'n cael ei brynu
- **CWMPAS 3** Allyriadau Anuniongyrchol o'r gadwyn gyflenwi

Gan weithio gyda'n cyflenwyr, partneriaid a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, gallwn ar y cyd sbarduno datgarboneiddio o fewn y gadwyn gyflenwi.




## Eich Ôl Troed Carbon

Er mwyn deall allyriadau ein cadwyni cyflenwi, mae angen i'n cyflenwyr ddechrau adrodd ar eu hôl troed carbon blynyddol.

Dyma **5 peth y gallwch chi eu gwneud** i ddechrau ar eich taith garbon:

- **Casglu data.** Bydd angen i chi gasglu data blynyddol ar eich categorïau CWMPAS 1, 2 a 3.
- **Cyfrifwch eich allyriadau.** Defnyddiwch y data a gasglwyd i gyfrifo eich ôl troed carbon.
- **Lluniwch strategaeth.** Defnyddiwch eich ôl troed carbon i greu Cynllun Lleihau Carbon.
- **Gosodwch nodau.** Gweithredwch ffyrdd o leihau allyriadau a dechrau eich taith i Sero Net erbyn 2050.
- **Diweddarwch y cynllun yn rheolaidd.** Parhewch i adrodd ar eich allyriadau yn flynyddol i ddangos eich cynnydd datgarboneiddio.

DATA

PAPUR ORGANIG

## Lleihau, Ailddefnyddio ac Ail-gaffael

Ochr yn ochr â chyfrifo allyriadau carbon, mae angen i'n cyflenwyr ddangos eu hymrwymiad i'r economi gylchol. Meddyliwch sut y gallwch leihau, ailddefnyddio, ailbwrpasu ac ailgylchu deunyddiau trwy gydol eich gweithrediadau.

Am fwy o gyngor ac adnoddau ewch i
**www.ardal-caffael.llyw.cymru**
ardal-procurement  X ArdalProcure

Busnes Cymru | Business Wales  business-wales-busnes-cymru
**www.businesswales.gov.wales**

Am fwy o gyngor ar ddechrau eich taith garbon, sganiwch y cod QR

## A wyddoch chi...

- Mae cymorth am ddim ar gael ar-lein i fusnesau gyfrifo eu hallyriadau gan gynnwys gweminarau a dogfennau canllaw?
- Yn aml, mae grantiau/benthyciadau ar gael i'ch helpu i ddatgarboneiddio eich sefydliad a dod yn fusnes gwyrddach?
- Gall datgarboneiddio eich gweithrediadau leihau costau, eich gwneud yn fwy cystadleuol a gwella eich enw da, a hyd yn oed denu buddsoddiad.

# CYMORTH DATGARBONEIDDIO NEWYDD AR WEFAN ARDAL

Rydym wedi lansio adran cymorth datgarboneiddio newydd ar ein gwefan Ardal wedi'i diweddaru i helpu cyflenwyr ar eu taith garbon.

Mae'r tudalennau newydd yn dwyn ynghyd offer a chanllawiau ymarferol am ddim i'ch helpu i wneud y canlynol:

- Deall beth yw allyriadau carbon a pha ddata y gallai fod angen i chi ei gasglu
- Mesur a chyfrifo eich allyriadau drwy ddarparu cyfrifiannellau a safonau perthnasol
- Meddwl am leihau allyriadau trwy gamau gweithredu ymarferol, hyfforddiant a chymorth

P'un a ydych chi'n fusnes bach neu ganolig sydd newydd ddechrau, neu eisoes yn gweithio ar Gynllun Lleihau Carbon, mae'r adnoddau wedi'u dylunio i fod yn gefnogol ac yn hawdd eu defnyddio, gyda chysylltiadau â sefydliadau fel Busnes Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi.

Archwiliwch adnoddau carbon newydd Ardal yma: Datgarboneiddio'r Gadwyn Gyflenwi

**https://ardal-caffael.llyw.cymru/**

## Dyfodol Mer Mwy Cynaliadwy

Yn Ardal, rydym wedi ymrwymo i greu dyfodol mwy cynaliadwy – ac rydym yn gwybod na allwn wneud hynny ar ein pen ein hunain. Dyna pam rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'n cyflenwyr i leihau allyriadau carbon a chofleidio egwyddorion economi gylchol ar draws ein cadwyn gyflenwi.

Mae Cynghorau Ardal i gyd wedi ymrwymo i fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030. Bob blwyddyn, rhaid i bob Cyngor adrodd ei allyriadau sefydliadol i Lywodraeth Cymru, ac ar hyn o bryd gall yr allyriadau sy'n deillio o'r nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith y mae pob Cyngor yn eu prynu gyfrannu tuag at gymaint ag 80% o ôl troed carbon Cyngor.

Er mwyn helpu cyflenwyr i gychwyn arni, rydym wedi creu fideo byr sy'n esbonio ein Taith Carbon a sut y gallwch ymuno â ni.



# DIGWYDDIAD CWRDD Â'R PRYNWR ARDAL

Daeth nifer uchel o bobl i ddigwyddiad Cwrdd â'r Prynwr Ardal ym mis Ebrill! Roedd hi'n wych gweld cynifer o fusnesau lleol yn yr ystafell yn gwneud cysylltiadau, gofyn cwestiynau ac archwilio cyfleoedd go iawn o dan £75k.



Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth iddo, ac i'r timau yng Nghyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen am helpu ei wireddu.

Rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar hyn a chreu hyd yn oed mwy o gyfleoedd yn y misoedd i ddod.








# ARENA CAERDYDD: ADEILADU LLEOLIAD A CHYMUNED WELL

ardal








Ers mis Ebrill, mae Mclaren wedi parhau i ymgysylltu â'r gymuned leol gan fynychu ffeiriau swyddi, cynnal ffug gyfweliadau a threfnu i grwpiau amrywiol ymweld â'r safle wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo. Mae rhai o'r uchafbwyntiau isod.

Prynodd JD Pierce, y contractwr gwaith dur, ychydig o gelfi a roddwyd i Glwb Bechgyn a Merched Grangetown i wella eu cyfleusterau. Aeth Paul, Rheolwr Cyswllt Cymunedol, gyda phersonél Varma i ddosbarthu'r celfi. Gobeithiwn fod aelodau'r clwb yn mwynhau eu cadeiriau a'u soffas newydd.

Daeth 2 grŵp o hyfforddwyr gwaith o'r AGPh i ymweld â'r safle hefyd ym mis Mai a mis Mehefin. Nod yr ymweliadau hyn oedd cael gwell dealltwriaeth o'r sector adeiladu, datblygu perthynas yr AGPh â McLaren ac archwilio cyfleoedd gwaith ar y prosiect.

Yn dilyn yr ymweliadau, mae wedi rhoi darlun llawer cliriach i bersonél yr AGPh o natur rolau adeiladu ac wedi rhoi mwy o hyder iddynt wrth hyrwyddo cyfleoedd Arena Caerdydd. Dywedodd Macauley o'r AGPh:

*"Mae'n llawer haws siarad â chwsmeriaid am swyddi adeiladu pan fyddwch chi wedi gweld yr amgylchedd eich hun, mae'n arwain at lu o sgyrsiau ymhlith hyfforddwyr gwaith eu hunain a rhwng hyfforddwyr gwaith ac Ymgynghorwyr Recriwtio (a elwid gynt yn Gynghorwyr Cyflogwyr)."*

MCLAREN
Exceptional People, Exceptional Places

ROBERTSON

CARDIFF
CAERDYDD

# NEWYDDION DA AM ADEILAD NEWYDD YSGOL WILLOWS MORGAN SINDALL

## Mentrau i leihau troseddu

Mae nifer yr achosion o ddwyn offer yng Nghymru yn cynyddu, gan effeithio ar ystod eang o grefftwyr ac yn aml yn achosi aflonyddwch sylweddol, gydag offer wedi'u dwyn o faniau a safleoedd yn costio miloedd i'w hamnewid ac yn atal gwaith.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, fe wnaethon ni noddi dau ddigwyddiad marcio offer mewn partneriaeth â SelectaDNA a Heddlu De Cymru yn Travis Perkins Stryd Tyndall a safle Willows. Mae'r citiau SelectaDNA yn defnyddio system farcio fforensig i rwystro troseddwyr a chefnogi adferiad, gyda'r potensial i leihau'r risg o ddwyn hyd at 83%.

Yn gyfan gwbl, darparwyd cyfanswm o 200 o gitiau yn rhad ac am ddim i grefftwyr ac isgontractwyr lleol, gan helpu i ddiogelu hyd at 10,000 o offer a darnau o offer fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i leihau troseddu.


















## Ymgyrch Boots for Bluebirds

Mewn cydweithrediad â Sefydliad Cymunedol Dinas Caerdydd a'i fenter Boots for Bluebirds, fe wnaeth ein tîm adnewyddu bŵts a threnyrs ail-law yn ddiweddar. Cafodd yr eitemau eu glanhau a'u paratoi'n ofalus cyn eu rhoi i Ysgol Uwchradd Willows, gan gefnogi pobl ifanc sydd eu hangen fwyaf.

Mae'r fenter yn helpu i chwalu rhwystrau i chwaraeon trwy ailddosbarthu bŵts a roddwyd ledled y ddinas, gan sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn gallu cymryd rhan.

Mae'r Sefydliad wedi ymrwymo i wneud pêl-droed yn hygyrch i bawb ac mae bob amser yn croesawu rhoddion o fŵts pêl-droed, trenyrs a chrimogau o bob maint – boed yn newydd neu'n ail-law. Yn ogystal, fe wnaethon ni roi £1,000 i adran chwaraeon Ysgol Uwchradd Willows i gefnogi'r gwaith o brynu crimogau newydd i fyfyrwyr eu defnyddio yn ystod gweithgareddau ysgol.

## Prosiect Etifeddiaeth Eastmoors – Pennod 2


Chwe mis ar ôl i'r drysau agor i'r stiwdio recordio newydd yng

Nghanolfan Ieuenctid Eastmoors yng Nghaerdydd, dychwelon ni i weld pa wahaniaeth mae wedi'i wneud.


Yn ofod diogel a chefnogol hirsefydlog, mae'r cyfleusterau gwell yn galluogi pobl ifanc i gael mynediad haws i offer cerddoriaeth o ansawdd uchel, gan greu cyfleoedd newydd i ddysgu, datblygu sgiliau a mynegi eu hunain.

Mae'r canlyniadau'n glir, gyda mwy o bobl ifanc yn mynychu, perthnasoedd newydd yn ffurfio a hyder yn tyfu. Dyna beth mae'r prosiect hwn yn ei gynrychioli.

Nid stiwdio yn unig, ond buddsoddiad ym mhotensial, creadigrwydd a dyfodol y bobl ifanc a fydd yn ei gario ymlaen – etifeddiaeth barhaol.







# DAUSON


Prynhawn prysur gyda llawer o sgyrsiau gwych – yn teimlo wedi fy nghalonogi'n fawr wrth ddod i ffwrdd o'r fath frwdfrydedd ac agwedd gadarnhaol. Diolch i bawb a ddaeth i sgwrsio.

**Cardiff University / Prifysgol Caerdydd**
**CIWM**
**CIWM Cymru Wales**

Roedd yn wych cynrychioli CIWM (Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff) a hyrwyddo'r diwydiant adnoddau a gwastraff ehangach yn nigwyddiad gyrfaoedd heddiw gydah Prifysgol Caerdydd. Roedd yn brynhawn prysur iawn gyda llawer o sgyrsiau gwych am yrfaoedd, sgiliau a chyfleoedd ar draws ein sector. Gobeithio bydd yn arwain at lu o aelodau newydd i CIWM ac aelodau sy'n fyfyrwyr y gallwn eu cefnogi wrth iddynt ddechrau a datblygu eu teithiau proffesiynol yn y diwydiant.

I'r rhai a oedd yn gofyn am aelodaeth CIWM am ddim i fyfyrwyr, cliciwch ar y ddolen isod i gael rhagor o wybodaeth. A chofiwch gadw mewn cysylltiad – roedd yn bleser siarad â chynifer o fyfyrwyr brwdfrydig oedd yn ymgysylltu. Diolch.

MORGAN SINDALL CONSTRUCTION






# TORRI TYWARCHEN YSGOL GYMRAEG IOLO MORGANNWG

## Seremoni Torri Tywarchen Ysgol Iolo

Mae seremoni torri tywarchen wedi nodi dechrau'r gwaith adeiladu ar yr Ysgol Gymraeg newydd gwerth £15m yn y Bont-faen, Ysgol Gymraeg Iolo Morgannwg – buddsoddiad sylweddol gan Gyngor Bro Morgannwg a Kier Construction, gyda chyllid o 65% gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Daeth y digwyddiad ar 9 Mehefin â disgyblion, staff, cynrychiolwyr Cyngor Sir Bro Morgannwg, Aecom, Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a Kier Construction ynghyd.

**Ymhlith y siaradwyr roedd:**

**Anna Brychan AS**, Gweinidog y Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

**Ian Rees** – Cyfarwyddwr Rhanbarthol Kier, gan dynnu sylw at ymrwymiad y bartneriaeth.

**Mrs Sara Rees** – Pennaeth, a siaradodd am rôl yr ysgol yng nghanol y gymuned yn ogystal â 2 ddisgybl blwyddyn 6 o'r ysgol bresennol gan nodi'r ymgysylltiad parhaus â disgyblion yn yr ysgol a fydd yn parhau trwy gydol y prosiect.

**Effaith**

Adeiladu safle newydd ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg, gan gynnwys ardaloedd chwarae allanol a chaeau chwaraeon, gan gynyddu lle i ddarparu ar gyfer 420 o ddisgyblion yn lle 210.

Cyfleusterau gwell gan gynnwys meithrinfa gyda 96 o leoedd rhan-amser, canolfan addysg oedolion a throchi Cymraeg, a rhaglenni dysgu cymunedol.

Seilwaith ychwanegol fel uned drochi, maes parcio, ffyrdd mynediad a chysylltiadau â datblygiad tai cyfagos.

Wedi'i gyflawni trwy fframwaith SEWSCAP, gyda'r gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Ebrill 2026 a gwaith sylfaen mawr o fis Mai 2026, gan ddisgwyl y bydd yn cael ei gwblhau erbyn hydref 2027.



# LOVELLS - NEW PENN

## Ymgysylltu ag Ysgolion

Mae Wythnos Agor Dy Lygaid yn fenter Addewid Caerdydd ledled y ddinas sydd wedi'i dylunio i ysbrydoli disgyblion Blwyddyn 5 a 6 trwy eu cyflwyno i amrywiaeth o yrfaoedd, gan helpu i godi dyheadau ac ehangu eu dealltwriaeth o gyfleoedd yn y dyfodol.

Fe wnaethon ni gyflwyno sesiwn i 336 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 o 10 ysgol gynradd ledled Caerdydd. Roedd y sesiwn yn tynnu sylw at yrfaoedd yn y diwydiant adeiladu, gyda ffocws penodol ar amcangyfrif a pharatoi prosiectau, ac roedd yn cynnwys gweithgaredd dylunio oedd yn seiliedig ar fathemateg i ddangos sut mae sgiliau STEM yn cael eu rhoi ar waith yn y diwydiant.

## Cyflogadwyedd

- Aethon ni i Ffair Yrfaoedd Adeiladu yng Ngharchar Ei Fawrhydi Caerdydd ochr yn ochr â'r partneriaid recriwtio Blue Water Recruitment a Sphere Solutions, gan hyrwyddo cyfleoedd yn y sector adeiladu a darparu arweiniad am lwybrau i mewn i gyflogaeth.
- Cynhaliwyd gweithdai CV ar gyfer carcharorion oedd yn cwblhau eu cardiau CSCS, gan helpu i gryfhau eu ceisiadau am swyddi a pharatoi ar gyfer cyflogaeth ar ôl eu rhyddhau.
- Aethon ni i'r Ffair Swyddi Adeiladu i Mewn i Waith yn Grangetown, gan ymgysylltu â cheiswyr gwaith o dan 25 oed a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws ein prosiectau.
- Llwyddodd un cyfranogwr o'r Academi Adeiladu i gwblhau lleoliad profiad gwaith mewn rôl lafur ar ôl cael eu cerdyn CSCS, gan ennill profiad gwerthfawr ar y safle a chefnogi eu taith i mewn i gyflogaeth.

LOVELL

### Caerdydd – Cyflawniadau Allweddol Gwerth Cymdeithasol ac Ymgysylltu â'r Gymuned Caerdydd:

- Ymgysylltu â 336 o ddisgyblion ar draws 10 ysgol gynradd
- Cynnal 3 sesiwn gyflogadwyedd
- Cefnogi 1 lleoliad profiad gwaith
- Darparu deunyddiau cymunedol a rhoddion llafur



### Cymunedol

Rydym wedi cyfrannu llafur a deunyddiau i adnewyddu'n llawn y grisiau a'r rheiliau llaw sy'n arwain at Eglwys Glenwood, gan ddarparu llwybr mwy diogel a mwy hygyrch i gerddwyr.

*"Mae'r grisiau newydd yn welliant anhygoel. Maen nhw'n darparu mynediad llawer haws a mwy diogel i'r gymuned sy'n defnyddio ein hadeilad, ac maen nhw'n edrych mor hyfryd hefyd!"*

Clare Reay, Eglwys Glenwood



# LOVELLS - Y FRO

## Ymgysylltu ag Ysgolion

Mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, gwnaethon ni gyflwyno sesiynau cyflogadwyedd ar draws ysgolion ym Mro Morgannwg.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi pobl ifanc i yrfaoedd yn y dyfodol, fe wnaethon ni gyflwyno chwe gweithdy adeiladu CV i ddisgyblion Blwyddyn 10 yn Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog. Roedd y sesiynau yn darparu arweiniad ymarferol am sut i greu CVs effeithiol, nodi eu sgiliau a'u cryfderau, a pharatoi ar gyfer cyfleoedd addysg a chyflogaeth yn y dyfodol. Er mwyn cefnogi taith cyflogadwyedd y disgyblion ymhellach, bydd y gweithdai yn cael eu dilyn gan sesiynau ffug cyfweliadau ym mis Gorffennaf, gan helpu disgyblion i fagu'r hyder sydd ei angen arnynt i gymryd eu camau nesaf tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Fe wnaethon ni hefyd gyflwyno ffug gyfweliadau i ddisgyblion Blwyddyn 12 yn Ysgol Gyfun Sant Cyres, gan helpu i fagu hyder a'u paratoi gyda phrofiad cyfweliadau ymarferol ar gyfer eu cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

## Cymorth Cymunedol a Chodi Arian

Rydym wedi rhoi £1,500 i gefnogi pod bwyd Grŵp Cymunedol Penarth. Bydd y rhodd yn helpu i gefnogi twf y pod, ymgysylltu â'r gymuned a chyflenwi mwy o fwyd i aelodau o'r gymuned.

Mae codi arian o'n diwrnod golff elusennol blynyddol wedi ein galluogi i roi £5,000 i Hosbis Plant Tŷ Hafan a £5,000 i Llamau.

*"Diolch enfawr i Lovell Partnerships. Bydd y rhodd hon i addysg Llamau yn galluogi'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi i wella eu lles, ennill cymwysterau a datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddatgloi cyfleoedd."*

**Denise Kennedy,**
**Llamau**

**The Vale of Glamorgan - Pre-Construction & Community The Vale Key Achievements:**

- 176 pupils engaged across 2 schools
- £5,000 donated to Tŷ Hafan Children's Hospice
- £1,500 donated to Penarth Community Group
- £5,000 donated to Llamau






LOVELL

# WSP




Cefnogodd tîm WSP Gyngor Caerdydd trwy fframwaith SEWTAPS i ddiogelu dau o adeiladau mwyaf hanesyddol Ynys Echni, gan sicrhau bod eu straeon yn parhau i fod yn hygyrch, yn ddilys ac yn ddiogel i ymwelwyr, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Wedi'u penodi'n Brif Ddylunydd amlddisgyblaethol yng Ngham 3 RIBA, chwaraeodd ein harbenigwyr ran allweddol wrth adfer dau o adeileddau mwyaf arwyddocaol yr ynys. Y cyntaf oedd yr hen ysbyty colera ac ynysu, sy'n Heneb Gofrestredig a adeiladwyd ym 1896 i amddiffyn y tir mawr rhag clefydau epidemig. Yr ail oedd yr orsaf corn niwl rhestredig Gradd II, a adeiladwyd ym 1908 i gynnwys signal niwl aer cywasgedig pwerus oedd ar gyfer llongau ym Môr Hafren.

Gan ddod ag arbenigedd ynghyd mewn peirianneg adeiladu, pensaernïaeth, arolygu adeiladau, gweinyddu contractau a chaffael, fe wnaethon ni gynnal asesiadau manwl o'r toeau, y waliau a'r simneiau. Yna buom yn gweithio'n agos gyda Cadw a Gwasanaethau Cofnodi Treftadaeth Cymru i nodi deunyddiau tebyg priodol, gan gadw cymeriad hanesyddol pob adeilad wrth ymestyn ei oes.

Parhaodd y dull cydweithredol hwn trwy benodi contractwr arbenigol Knox & Wells trwy fframwaith SEWSCAP, gan sicrhau bod y gwaith adfer yn cynnal y safonau uchaf o ran cadwraeth treftadaeth a chrefftwriaeth.

Dywedodd Richard Wilks, Rheolwr Prosiect Ynys Echni a Chyfarwyddwr Technegol: *"Roedd adfer y ddau adeilad eiconig hyn ar Ynys Echni yn gofyn am waith tîm cryf rhagorol a chynllunio manwl. Rydym yn falch o fod wedi cefnogi Cyngor Caerdydd i ddod â bywyd newydd i'r rhannau pwysig hyn o dreftadaeth yr ynys, gan sicrhau bod ymwelwyr yn gallu parhau i brofi ei hanes unigryw a diddorol."*

Fel tystiolaeth o natur ryfeddol y prosiect a'r dull cwbl integredig y tu ôl iddo, cafodd ei gydnabod yn ddiweddar gyda gwobrau am Adfywio a Chadwraeth a Phrosiect Adeiladu'r Flwyddyn yn seremoni Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2026."

Dywedodd y Cynghorydd Jennifer Burke, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau Cyngor Caerdydd: *"Mae ennill dwy wobr genedlaethol yn gydnabyddiaeth wych o'r gwaith partneriaeth, yr arbenigedd a'r ymroddiad sydd ynghlwm wrth amddiffyn hanes unigryw Ynys Echni a datgelu ei straeon diddorol i gynulleidfaoedd newydd."*

# WALTERS

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, cyflwynodd tîm prosiect Walters - Sgarp Penarth amrywiaeth o weithgareddau addysg ac allgymorth cymunedol i ysbrydoli pobl ifanc a hyrwyddo gyrfaoedd ym maes adeiladu, peirianneg a STEM. Gan weithio gydag ysgolion a cholegau ar draws Bro Morgannwg, fe wnaeth cydweithwyr rannu gwybodaeth am y diwydiant, datblygu sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr a rhoi mewnwelediad i'r cyfleoedd gyrfa amrywiol sydd ar gael o fewn Walters a'r sector adeiladu a pheirianneg sifil ehangach.

## Ysgol Gyfun Sant Cyres

**Ffug gyfweliadau Bl 12 (9 awr)** – ein gweithwyr proffesiynol ifanc yn datblygu sgiliau newydd, gan gynnwys sgiliau rhyngbersonol, rhoi myfyrwyr yn gyfforddus, datblygu hyder a chwestiynu sgiliau; yn ogystal â'r myfyrwyr yn paratoi ymarfer cyfweliadau ar gyfer eu camau nesaf ar ôl gadael yr ysgol.




## Ysgol Gymraeg Pen-y-Garth, Penarth

Dechrau tair sesiwn yn yr ysgol. Sesiwn 1 (4 awr)
- Cyflwyniad i brosiect Walters / Penarth / Iechyd a Diogelwch ar safleoedd adeiladu gan gynnwys PPE.

Gadawodd myfyrwyr gyda her i gynhyrchu poster Iechyd a Diogelwch. 7 gwobr i'w hennill a chyfle i'ch poster gael ei ddefnyddio ar safle adeiladu byw. Cynhaliwyd y sesiwn yn Gymraeg gan ddau siaradwr Cymraeg o dîm Walters.



**Ysgol Gyfun Sant Cyres**- Cyflwyniad i ddosbarth Bl 7/9 ynglŷn â swyddi STEM yn Walters, Amlinelliad prosiect ar gyfer sgarp Penarth mewn cysylltiad â gwersi Daearyddiaeth, Cwis am nodweddion personoliaeth a sut maen nhw'n cyd-fynd â rolau swyddi posibl. Roedd Leo, Jacob, Daisy a Rhian yn bresennol, gan roi cyfle i'n prentisiaid ddatblygu eu sgiliau cyflwyno – (10 awr yn yr ysgol + 2 awr o amser paratoi = 12 awr)



**Coleg Caerdydd a'r Fro** – fe wnaethon ni ymweld â myfyrwyr BTEC Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn y coleg a rhannu gwybodaeth am Walters, amlinellu prosiect Penarth a gwneud cynnig ar gyfer 4 lleoliad profiad gwaith ar gyfer gwyliau'r haf.



WALTERS

# GOLDBECK

## Agor drysau i yrfaoedd yn y dyfodol: Disgyblion Ysgol Uwchradd Fitzalan yn ymweld â'r safle adeiladu

Yn ddiweddar, croesawodd Goldbeck ddisgyblion Blwyddyn 9 i 11 o ddarpariaeth Cwricwlwm Amgen Ysgol Uwchradd Fitzalan i'w safle adeiladu maes parcio aml-lawr Glanfa'r Iwerydd yng Nghaerdydd.

I rai o'r disgyblion, dyma oedd eu profiad cyntaf o ymweld ag amgylchedd adeiladu byw a cham cyntaf tuag at feddwl am yr hyn sy'n dod nesaf ar ôl ysgol.

I ni, mae creu cyfleoedd fel hyn yn bwysig.
Mae'n helpu pobl ifanc i archwilio gwahanol lwybrau, ystyried gyrfaoedd yn y dyfodol ac arddangos yr ystod eang o gyfleoedd yn ein diwydiant. Mae profiadau fel hyn hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth fagu hyder a chodi dyheadau.

Gyda chymorth ein tîm a phartneriaid cadwyn gyflenwi dibynadwy, cymerodd y grŵp ran mewn gweithgareddau ymarferol, gan gynnwys:


- Archwilio ein dull systematig o ddarparu maes parcio saith llawr. Ymarfer gosod a lefelu laser gyda Cardiff Steel Erection
- Cydosod a phrofi bwrdd dosbarthu trydanol gyda Ffocws MTP
- Roedd y digwyddiad wedi'i gefnogi gan Sunbelt a wnaeth ddarparu'r offer arbenigol a ddefnyddiwyd gan y disgyblion
- Arddangosiad byw o sganio CAT ar gyfer gwasanaethau tanddaearol dan arweiniad ein Rheolwr Safle Cynorthwyol.

Roedd adborth cadarnhaol gan yr ysgol, gyda gwir ddiddordeb ymhlith y grŵp, gyda'r ysgol yn gofyn am ragor o ymweliadau. Roedd yn arwain at ryngweithio da.

Yn ogystal â darparu cyfle dysgu gwerthfawr i'r disgyblion, rhoddodd yr ymweliad hefyd y profiad cyntaf i lawer o'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi o ymgysylltu â phobl ifanc yn y math hwn o leoliad, gan wneud y dysgu yn broses ddwyffordd.

Cam bach ond ystyrlon arall i gryfhau'r cysylltiad rhwng addysg, diwydiant a'r gymuned leol.

GOLDBECK







# ANDREW SCOTT CYF




Dychwelodd ASL i Ysgol Gynradd Groes-wen, un o'r ysgolion a adeiladwyd gan Andrew Scott Ltd, lle roedd ein tîm Gwerth Cymdeithasol yn gwirfoddoli fel beirniaid ar gyfer cystadleuaeth Cynghrair LEGO. Fe wnaeth dwy ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd gymryd rhan, gan greu robotiaid model LEGO a'u codio i gwblhau amrywiaeth o dasgau. Roedd llawer o'r timau wedi bod yn paratoi ers mis Ionawr, ac roedd eu gwaith caled yn amlwg.

Fel rhan o Wythnos Drysau Agored 2026, roeddem yn falch iawn o groesawu myfyrwyr o Brifysgol De Cymru a Chweched Dosbarth Ysgol Bro Edern i'n prosiect Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd.

Aeth myfyrwyr ar daith o amgylch y safle a chael mewnweledIad gwerthfawr i'r diwydiant adeiladu a'r ystod eang o gyfleoedd gyrfaoedd sydd ar gael.







Mehefin 26 - Aeth y tîm i'r digwyddiad 'Camau i mewn i Adeiladu' yng Nghanolfan Hamdden Trem y Môr, a drefnwyd gan Wasanaeth Cynghori i mewn i Waith Caerdydd a'r Academi Adeiladu ar y Safle. Cyfle gwych i gysylltu â phobl sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd ym maes adeiladu.

# GRAHAMS

## Gwirfoddoli i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd – Dydd Iau 16 Ebrill 2026



Pan gysylltwyd â'r Rheolwr Contractau Phil Briley gan Swyddog Gwerth Cymdeithasol Cyngor Caerdydd (Academi Adeiladu ar y Safle) i ofyn am gymorth gyda chynnal a chadw eiddo yn eu swyddfeydd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghaerdydd, roedd yn benderfynol o helpu mewn cynifer o ffyrdd ag y gallai. Cafodd ei gyflwyno i staff perthnasol ac ymwelodd â'r safle i gytuno ar gwmpas y gwaith; sef clirio mwsogl o amgylch yr adeilad a'r ardaloedd parcio ceir i leihau peryglon llithro a gwneud y gofod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Er mwyn hwyluso hyn, trefnodd Graham logi peiriant tynnu mwsogl a golchwr jet. Yn ogystal, roedd angen gosod tap allanol i alluogi'r offer i weithio'n effeithiol.



Ac yntau ddim yn fodlon ar gwblhau'r dasg yn unig, fe wnaeth Phil dderbyn hefyd ddefnyddiwr gwasanaeth ifanc gyda diddordeb arbennig mewn cynnal a chadw eiddo fel pâr ychwanegol o ddwylo mawr ei eisiau, gan alluogi'r gwaith i gefnogi datblygu sgiliau a hyfforddiant cyflogadwyedd hefyd.




Roedd GRAHAM yn falch iawn o gefnogi'r fenter hon fel rhan o'n hymrwymiad gwerth cymdeithasol parhaus ac, yn unol â'n hymrwymiad i ragori ar ddisgwyliadau cleientiaid, fe wnaethon ni hefyd atgyweirio llinell ffens a rhoi'r offer a ddefnyddiwyd ar y diwrnod i'r gwasanaeth am ddim ar gyfer cynnal a chadw parhaus.

Ar ôl cwblhau'r gwaith, roedd Donna, Izzey a Claire o'r GCI yn hynod falch o'r canlyniad a chadarnhaodd y gellid defnyddio'r ardal bellach yn ddiogel ar gyfer seibiannau awyr agored, a oedd ei bwrpas gwreiddiol. Mynegodd Donna ei diolchgarwch a'i boddhad gydag ansawdd y gwaith a gwblhawyd. O ganlyniad, mae'r safle wedi gofyn am adeiladu blychau plannu llysiau ar gyfer eu rhandir ym Mhontcanna ar eu prosiect nesaf, a rhoi a gosod cylch pêl-fasged.

Dywedodd Phil: *"Roedd yn bleser cwrdd â'r person ifanc a gafodd ei ddarparu gan y GCI. Roedd yn dangos moeseg waith gref ac aeth at bob tasg gydag agwedd gadarnhaol. Does gen i ddim amheuaeth, pe bai'n dewis dilyn gyrfa yn y diwydiant adeiladu, y byddai'n ased mawr i unrhyw fusnes."*

Da iawn i Phil ac i'r Plymwr Aml-sgil Liam

## Matrix

**Ym mis Mai, cynhaliodd y Tîm Gwerth Cymdeithasol yn Matrix, mewn partneriaeth â Chanolfan Gwaith Caerdydd, ddiwrnod o ffug gyfweliadau ar gyfer ceiswyr gwaith lleol oedd yn awyddus i roi hwb i'w hyder o amgylch y broses gyfweld.**

Trwy gydol y dydd, fe wnaethon ni gyflwyno cyfanswm o 7 ffug gyfweliad ffug chwestiynau wedi'u dylunio i alluogi cyfranogwyr i ymarfer sut y bydden nhw'n ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin sy'n cael eu gofyn ar draws y rhan fwyaf o ddiwydiannau, gyda phwyslais ar ba ddiwydiant bynnag yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn cael swydd ynddo.

Daeth pob un o'r cyfranogwyr gydag egni a brwdfrydedd mawr, ac ar ôl pob ffug gyfweliad fe wnaethon ni roi adborth ymarferol wedi'i deilwra i bob un y gallen nhw ei ddefnyddio yn y dyfodol i hogi eu sgiliau cyfweliad ymhellach.

Yn dilyn y ffug gyfweliadau, cawson ni adborth gwych, gydag un cyfranogwr yn dweud
*"Fe wnes i fwynhau'r sesiwn sgiliau cyfweliad a dysgu llawer. Roedd yn anffurfiol, a oedd yn wych. Dysgais sut mae cyfweliadau'n cael eu strwythuro ac fe wnes i nodi fy nghryfderau a'm gwendidau. Dysgais i lawer."*

Diolch, Ganolfan Byd Gwaith, am drefnu i ni fod yn rhan o fenter mor ystyrlon!

# CYMORTH LLETY Â CHYMORTH TŶ GORWEL

**Fe wnaeth ein tîm BLIC gysylltu â thîm llety â chymorth Cyngor Caerdydd i gynnig cymorth trwy roi Buddion Lles Cymunedol yn lleol.**

Gan weithio mewn partneriaeth ag Ardal a'n contractwyr Travis Perkins, fe wnaethon ni nodi pobl ifanc sy'n gadael gofal ac yn symud i lety â chymorth fel grŵp blaenoriaeth i elwa o fentrau lles cymunedol. Rhoddwyd cymorth ariannol i bobl ifanc i'w helpu i ymgartrefu yn eu cartrefi newydd a llywio'r broses bontio i fyw'n annibynnol. Mae wedi cyfrannu at hybu eu hyder ac wedi eu galluogi i wneud eu dewisiadau eu hunain. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi gwella eu lles, wedi'u helpu i ymgartrefu yn eu llety ac wedi cefnogi canlyniadau mwy cadarnhaol.







### Dywedodd Rheolwr Llety â Chymorth Tŷ Gorwel:

*'Mae'r bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y cynllun hwn. Mae wedi galluogi'r bobl ifanc i brynu eitemau hanfodol sy'n cynorthwyo eu taith bersonol i fyw'n annibynnol. Fel y gwelwch, mae amrywiaeth o eitemau wedi'u prynu gan gynnwys popeth o eitemau cegin hanfodol i ddatblygu sgiliau ar gyfer coginio ar gyllideb i eitemau i greu amgylchedd cartrefol a thawel, gan gynorthwyo lles ac iechyd meddwl.'*











# ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE (AAS)

ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE DE-DDWYRAIN CYMRU
ONSITE CONSTRUCTION ACADEMY SOUTH EAST WALES

Mae Academi Adeiladu ar y Safle (AAS) De-ddwyrain Cymru yn rhaglen hyfforddi, profiad a chyflogaeth ar gyfer gyrfaoedd yn y diwydiant adeiladu. Wedi'i ariannu gan y CITB a'i ddarparu gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith, mae'r AAS yn rhoi cymorth i gontractwyr a cheiswyr gwaith (newydd-ddyfodiaid, dychwelwyr a newidwyr gyrfa) o bob oed ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan baratoi ceiswyr gwaith ar gyfer gwaith yn y sector trwy brofiadau ar safleoedd a hyfforddiant wedi'i ariannu.


Mae ein hymgeiswyr yn cynrychioli rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y di-waith, yr economaidd anweithgar, y di-waith hirdymor, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg/cyflogaeth/hyfforddiant, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pobl dros 50 oed, cyn-droseddwyr, pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, a menywod.

Rydym yn brofiadol wrth weithio gyda chwmnïau haen 1, contractwyr, cadwyni cyflenwi ac asiantaethau recriwtio, yn cyflenwi ymgeiswyr dibynadwy ac ymroddedig i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau Buddion Lles Cymunedol o ran cyflogaeth a sgiliau, ac rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd profiad gwaith a chyflogaeth i'n hymgeiswyr.



**Os hoffech chi gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio ymgeiswyr CSCS a/neu gymryd rhan yn ein rhaglen hyfforddi, cysylltwch â ni yn AcademiAdeiladu@caerdydd.gov.uk**

# ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE (AAS)



CMae creu llwybrau go iawn i gyflogaeth yn cymryd mwy na bwriadau da. Mae'n cymryd cynllunio, partneriaeth ac ymrwymiad i wneud pethau'n iawn.

Ar brosiectau adeiladu mawr, mae creu cyfleoedd newydd yn dechrau gyda chynllunio gweithlu gofalus a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Yn Varma, mae ein tîm craidd profiadol yn ein helpu i gefnogi a mentora dechreuwyr newydd. Ymhlith y tîm hwnnw, mae pobl sy'n newydd i amgylchedd gwaith prysur neu'n dychwelyd i'r diwydiant.

Dyna beth mae Varma wedi bod yn adeiladu ar brosiect Arena a Gwesty Caerdydd McLaren.

Rydym yn falch bod mwy na 70% o'n gweithredwyr ar y safle yn dod o gymunedau lleol Butetown, Grangetown, Trelái a'r Sblot.

I lawer o bobl, mae lleoliad profiad gwaith byr yn gallu bod y cam cyntaf i mewn i adeiladu neu yn ôl i mewn i gyflogaeth. Pan gaiff ei wneud yn iawn, mae'n rhoi cyfle gwirioneddol i bobl weld a yw bywyd y safle yn iawn iddyn nhw.

Yr hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth yw strwythur, paratoi a chymorth.



Trwy weithio gyda rhwydweithiau cyflogaeth lleol a phartneriaid cymunedol, rydym yn helpu pobl i feithrin hyder, trefn a pharodrwydd cyn mynd ar y safle.

Gan weithio gyda thimau i Mewn i Waith Cyngor Caerdydd, Clwb Bocsio Amatur Tiger Bay ac eraill, rydym wedi darparu chwe lleoliad dros y pum mis diwethaf, gan gefnogi pobl i mewn i'r gwaith, cadw eraill yn ymgysylltu, a rhoi blas cyntaf i fwy o unigolion ar fywyd ar y safle.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn cymryd amser i'w ymsefydlu. Nid yw meithrin ymddiriedaeth, creu cyfleoedd a datblygu perthnasoedd cryf yn digwydd dros nos, ond mae'n hanfodol os ydym am greu llwybrau ystyrlon a pharhaol i mewn i gyflogaeth.

Mae cynnydd gwirioneddol yn digwydd pan fo partneriaid, cyflogwyr a chymunedau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i agor drysau i bobl a chreu cyfleoedd sy'n parhau i fod wedi'u gwreiddio yn y lleoedd sy'n bwysicaf oll. Mae Varma yn ystod camau cynnar y daith honno ar draws ei weithrediadau, ond rydym eisoes yn gwneud gwahaniaeth.

i mewn i waith gwasanaeth cynghori
into work advice service

ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE DE-DDWYRAIN CYMRU
ONSITE CONSTRUCTION ACADEMY SOUTH EAST WALES

# GALWAD I WEITHREDU

## ADDO NAWR!

**Rydym wrth ein bodd o wahodd pob partner i addo eu cefnogaeth i'n Rhaglen Graidd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Mae'r ffenestr addo ar agor o hyd, ac mae eich addewid yn chwarae rôl hanfodol wrth greu cyfleoedd ystyrlon a chyson i bobl ifanc ledled Caerdydd.**

**Mae eich addewid yn cefnogi amrywiaeth cryf o raglenni yn uniongyrchol, gan gynnwys:**

- **Wythnos Agor Dy Lygaid** - gweithdai rhithwir sy'n cyflwyno disgyblion cynradd i fyd gwaith
- **Profiad Gwaith Gwobr Beth Nesaf** - lleoliadau wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 12 a dysgwyr darpariaeth amgen
- **Interniaethau â Chymorth** - profiad gwaith pwrpasol i ddisgyblion ADY a disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- **Llunio Fy Stryd / Llunio Fy Ysgol** - troi syniadau disgyblion yn brosiectau dylunio ac adeiladu go iawn
- **Cysylltu Diwydiant a Fforymau Busnes** - ymgysylltiad dan arweiniad cyflogwyr ag ysgolion uwchradd
- **One Million Mentors & Debate Mate** - rhaglenni mentora a chyfathrebu sy'n codi dyheadau ac yn meithrin y sgiliau meddal y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt
- **Llwyfan Beth Nesaf Caerdydd** - hyrwyddo cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ôl-16 - hysbysebu am ddim i fusnesau
- **Digwyddiadau'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a Phrosiectau Piblinell Dalent** - allgymorth targedig i ddiwallu anghenion y sector

**Mae eich cefnogaeth yn sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn parhau i dyfu, datblygu, a chyrraedd y bobl ifanc sydd eu hangen fwyaf.**
**Gwnewch eich addewid heddiw drwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein – cliciwch YMA**


The Cardiff Commitment
Addewid Caerdydd

# LLUNIO FY STRYD, LLUNIO FY YSGOL


Diolch i'n holl bartneriaid am ymuno â'r ail weminar sy'n cefnogi cyflwyno'r ail weithdy Llunio Fy Stryd, Llunio Fy Ysgol sy'n canolbwyntio ar ddylunio ardal o fewn yr ysgol gan ddefnyddio syniadau creadigol a dychymyg y myfyrwyr.

Mae Llunio Fy Stryd, Llunio Fy Ysgol yn brosiect addysgol cydweithredol sy'n helpu myfyrwyr i archwilio pensaernïaeth, adeiladu, a dylunio cymunedol mewn ffordd greadigol ac ystyrlon. Wedi'i ddatblygu gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Tîm Cwricwlwm Cyngor Caerdydd, arbenigwyr yn y diwydiant ac athrawon, mae'r prosiect yn annog plant i ddylunio ac adeiladu prosiectau ar raddfa fach yn eu hamgylchedd ysgol sydd o fudd i'r gymuned ehangach. Mae Ysgol Gynradd Peter Lea a CMB eisoes wedi cwblhau dau weithdy ystafell ddosbarth ac wedi dechrau rhoi dyluniadau'r myfyrwyr ar waith. Wrth ymateb i'r gwerthusiad, dywedodd myfyrwyr Peter Lea

**Wnaethoch chi ddysgu rhywbeth newydd am adeiladu a phensaernïaeth?**




**Ydych chi'n meddwl y byddai gweithio ym maes adeiladu a phensaernïaeth yn ddiddorol?**












# COED CAERDYDD

Mae Coed Caerdydd yn rhaglen 10 mlynedd i gynyddu nifer y coed yng Nghaerdydd, gan gefnogi strategaeth newid yn yr hinsawdd Un Blaned y ddinas. Ers i'r prosiect ddechrau yn 2021, rydym wedi plannu dros 155,000 o goed ac wedi creu dros 21,500 o oriau gwirfoddoli trwy ddigwyddiadau plannu, planhigfa ac ôl-ofal coed.

Mae eich busnes yn gallu helpu i gefnogi'r prosiect trwy roddion ariannol a gwirfoddoli.





**Astudiaeth achos:**
Fel rhan o'u hymrwymiadau Buddion Lles Cymunedol, gwirfoddolodd Journeo plc yn ein planhigfa goed yn Fferm y Fforest, yr Eglwys Newydd ar 1 Mai 2026. Fe wnaethon nhw helpu gyda dyfrio a phlannu eginblanhigion coed i'w tyfu ymlaen. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i gadw stociau'n iach i'w plannu ledled Caerdydd.

Fe wnaethon nhw hefyd gyfrannu £2,000 a fydd yn cael ei ddefnyddio i brynu coed i'w plannu mewn parciau, ystadau tai ac ysgolion ledled Caerdydd. Bydd hyn yn helpu i ddarparu sawl budd cymunedol gan gynnwys atafaelu carbon, oeri trefol, lleihau llygredd aer, creu diddordeb tymhorol a chreu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol (fel perllannau cymunedol).

Cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth: **prosiectcoedcaerdydd@caerdydd.gov.uk**

**https://www.outdoorcardiff.com/cy/bioamrywiaeth/coed-caerdydd/cynllun-rhoi-coed-caerdydd**

**https://www.eventbrite.com/o/coed-caerdydd-46791623513**

CARDIFF CAERDYDD

Coed Caerdydd

# DILYNWCH ARDAL AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

ardal

**Gwefan:**

**LinkedIn:**